



## Ysgol Pentreuchaf

### 103. Polisi Hawliau Gwario'r Pennaeth

#### Canllawiau

1. Bydd gan y Pennaeth yr awdurdod i wario hyd at uchafswm o £1,500 ar unrhyw un eitem. Os bydd angen gwario mwy na'r swm hwn, bydd angen trafod y mater gyda'r Cadeirydd (hyd at £2,000) yr Is-Banel Cyllid (hyd at £2,500) neu'r Corff Llywodraethol llawn (dros £2,500).
2. Pan ddyrenir Cyllideb Blynyddol yr ysgol, bydd hawl gan y Pennaeth i drosglwyddo rhwng penawdau ariannol yn y gyllideb.
3. Bydd hawl gan y Pennaeth i ail-ddyrannu unrhyw danwariant yng nghyllideb yr ysgol o'r flwyddyn flaenorol.
4. Gan nad ydym fel Corff Llywodraethol yn gyfrifyddion, yr ydym yn dibynnu yn helaeth ar y cymorth a'r arweiniad a gawn gan ein Swyddog Cyllid, Mr. Gwyn Owen. Gallwn gysylltu gydag ef unrhyw adeg, fel y bo angen.
5. Mae cyfarfodydd ar gael i Benaethiaid gyfarfod â'r Swyddog Cyllid yn rheolaidd. Bydd y Pennaeth yn ei gyfarfod o leiaf dwy waith y flwyddyn fel rheol.
6. Cedwir Cronfa Ysgol - bydd y Pennaeth yn casglu arian tripliau a.y.y.b a'i dalu i mewn i gyfrif yr ysgol. Bydd unrhyw roddion, arian cyngherddau, casgliadau elusennol a.y.y.b. hefyd yn cael ei dalu i mewn i'r gronfa hon (oni bai eu bod wedi eu trefnu gan y Cyfeillion). Bydd arian sydd yn cael ei gasglu yn arbennig i gadw plentyn bach o Vietnam a fabwysiadwyd gan y plant yn cael ei dalu i gronfa'r ysgol hefyd a bydd debyd uniongyrchol yn mynd ohonno yn fisol. Bydd y Pennaeth ac un athrawes yn arwyddo sieciau. Bydd y Pennaeth yn creu mantolen fydd yn cael ei harchwilio'n annibynnol. Caiff hon ei chyflwyno i'r Llywodraethwyr yn flynyddol.
7. Bydd y Llywodraethwyr yn trafod sefyllfa ariannol yr ysgol yn gyffredinol wrth drafod y Gyllideb yn flynyddol, a bydd y Pennaeth yn adrodd ar sefyllfa gyllidol yr ysgol yn dymhorol.

**Adolygir: Chwefror 2017**

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Pennaeth

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Cyhoeddwyd copi terfynol **'Rheolaeth Gyllidebol Ysgolion Cynradd'** gan Wasanaeth Archwilio a Rheoli Risg Y Cyngor ar ddechrau mis Gorffennaf eleni. Mae argymhelliad A04 o'r adroddiad hwnnw yn nodi fel a ganlyn:-

**'Mae angen sicrhau bod gan bob Ysgol gofnod ysgrifenedig o ddyletswyddau a hawliau'r corff llywodraethol a'r pennaeth parthed penderfyniadau ariannol, lle mae'r corff llywodraethol wedi cytuno ynghyd a'r pennaeth ar symiau synhwyrol fel bod y pennaeth yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau. Ymhellach bydd angen i'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr lofnodi'r ddogfen er mwyn cadarnhau bod y symiau yma wedi ei chytuno. Dylid diweddarau'r ddogfen pob tair blynedd neu pan fydd pennaeth newydd yn cychwyn yn yr Ysgol.'**

*Er mwyn i benaethiaid a chadeiryddion cydymffurfio gyda'r arweiniad uchod, atodaf isod ganllaw pellach i'ch sylw, gan obeithio y bydd o ddefnydd. – **Keith Parry***  
**Swyddog Gwella Ansawdd Addysg, 02/09/09**